# Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Rhan 1 – Adran 6

# Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau

## Adroddiad Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad 2025



***Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Rhan 1 - Adran 6***

***Adroddiad ar Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau***

***2025***

Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad (Grŵp 2)

## Cyflwyniad a'r Cyd-destun

Mae Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad yng nghanol Sir Ceredigion, hanner ffordd rhwng Lanbedr Pont Steffan ac Aberaeron a hanner ffordd o'r Gogledd i'r De o'r Sir. Yn gweithredu Praesept o dan £10,000 mae'r cyngor yn gyswllt pwysig rhwng y Gymuned ac asiantaethau a chyrff llywodraethol eraill er mwyn helpu i benderfynu sut mae gwasanaethau lleol yn cael eu darparu, eu hariannu a'u blaenoriaethu.

O fyw mewn ardal gwledig mae bioamrywiaeth yn rhan o fywyd bob dydd y cynghorwyr. Mae gennym ffermwyr sydd eisoes yn gweithio'n ddyddiol ary tir ac yn ei warchod a phawb a thir neu erddi sydd yn gartref i amrywiaeth o adar a bywyd gwyllt.

Mae byw yn y wlad yn help wrth i ni fedru gweithio tuag at gyflawni'r Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol gan fod gennym nifer o lwybrau cerdded i'w mwynhau a llwybr yr arfordir hefyd o fewn ychydig o filltiroedd.

## Adroddiad Gweithredu

| Camau gweithredu i: | |
|---|---|
| -cynnwys bioamrywiaeth o fewn llunio penderfyniadau a chaffael | • **Ceisiadau cynllunio a newidiadau i ddefnydd tir.** Cyfeirio at adroddiadau technegwyr ac arbenigwyr amgylchedd ar unrhyw geisiadau cynllunio.<br>• **Pryniannau.** Ystyried yr amgylchedd wrth brynu adnoddau e.e. prynu meinciau wedi eu hailgylchu yn rhan o'r gefnogaeth ehangach o warchod bioamrywiaeth.<br>• Trafod yn ein cyfarfodydd yn flynyddol am yr hyn dylwn gynnwys yn ein bocsus blodau<br>• Cymryd rhan mewn sesiynau hyfforddi/trafod – gweminat Un Llais Cymru 4/11/2025 er cywain cymaint o wybodaeth â phosib. |
| -codi ymwybyddiaeth o | • **Prosiectau arbennig.** Yn 2021 prynwyd 10 bocs blodau a'u gosod ar draws yr etholaeth. Cyflogwyd cwmni garddio lleol ag arbenigedd o gefnogi pentrefi a threfi i hybu bioamrywiaeth drwy blannu blodau cynhenid |

| | |
|---|---|
| fioamrywiaeth<br>a'i<br>bwysigrwydd | Rhoddwyd adroddiad yn y papur lleol-<br><br>**Blodau'r Haf.**<br>*Mae'n siwr bod nifer ohonoch yn ardaloedd Cribyn, Dihewyd a Felinfach wedi sylwi ar y bocsus blodau hyfryd sydd wedi eu gosod yn y pentrefi'n ddiweddar.*<br>*Prynwyd y bocsus a'r blodau gan Gyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad.*<br>*Yn ogystal â bod yn wledd i'r llygad, mae plannu'r blodau yn rhan o waith y Cyngor wrth ystyried ei ddyletswydd i warchod a hybu bioamrywiaeth yn gyffredinol, ac mewn mannau cyhoeddus yn benodol.*<br>*Gydag amser, y gobaith yw rhoi bocsus mewn lleoliadau eraill o fewn yr etholaeth yn ogystal â rhoi ar waith syniadau eraill i hybu bioamrywiaeth er lles ein hamgylchedd,*<br>*Mae'r Cyngor yn ddiolchgar iawn i bawb sydd wedi bod mor barod i edrych ar ôl y blodau a sicrhau bod eu prydferthwch yn parhau i gyfoethogi'r pentrefi yn weledol ac yn amgylcheddol.*<br><br><br>2021<br><br>2024<br>• Yn 2024 newidiwyd y polisi fel ein bod yn cynnwys blodau'r maes yn y 10 bocs.<br>• Clustnodwyd aelodau o'r gymuned ym mhob pentrefi i gymryd gofal dros ddyfrhau'r blodau dros yr haf felly'n ffordd I ysgogi trafodaeth yn lleol.<br>• Rhoddwyd poster sut i nybu bioamryiaeth ym mhob un o'r bocsus gwybodaeth o fewn yr Etholaeth<br>• Cyhoeddi'r polisi a'r adroddiad ar y wefan |
| -diogelu y prif rywogaethau a'r cynefinoedd | • Er nad oes gennym ardaloedd o ddiddordeb arbennig o ran rhywogaethau prin ry' ni'n cefnogi gwaith y Cyngor Sir drwy barchu'r newid polisi o ran torri glaswellt, bod yn ymwybodol o effaith ffosffadau yn enwedig wrth drafod ceisiadau cynllunio.<br>• Ry' ni hefyd yn ymwybodol o Adran 7 Deddf yr Amgylchedd |
| -adfer a chreu cynefinoedd a rhwydweithiau ecolegol cydnerth | • Cefnogi Pwyllgor Cae Chwarae lleol i roi ystyriaeth i gadw darn o'r cae Chwarae ar gyfer hybu bioamrywiaeth yn ei gynlluniau i adfywio'r Cae. Er nad yw'r cae yn eiddo i'r Cyngor, mae hwn yn esiampl o sut mae'r Cyngor yn cydweithio â'r Gymuned leol. |

| | |
|---|---|
| -mynd i'r afael ag elfennau negyddol: lleihau llygredd e.e. defnyddio atebion yn seiliedig ar natur, mynd i'r afael â rhywogaethau goresgynnol | • Rhoi ystyriaeth i ffosffadau mewn ceisiadau cynllunio gan gymryd Cyngor arbenigol gan y Cyngor Sir.<br>• Neilltuo arian yn y gyllideb flynyddol ar gyfer prosiectau bio-amryiwaeth.<br>• Trafod gyda pherchennog Gerddi Cae Hir am y planhigion gorau i hybu peillio ac adfywio I sicrhau nad ydym yn plannu pethau sy'n niweidio'n cynefin e.e. perennials v. annuals<br>• Trafod gyda Ranger Cyngor Sir Ceredigion o ran y gwaith cynnal-a-chadw o fewn yr etholaeth a'r defnyddau y mae'n defnyddio i adfer pontydd, cloddiau.<br>• Trefnu sesiynau codi sbwriel |
| -defnyddio gwella a rhannu tystiolaeth | • Cyhoeddi polisiau, adroddiadau, newyddion ar y wefan a defnyddio'r bocsus Gwybodaeth i arddangos posteri |
| -cefnogi capasiti ac/neu sefydliadau eraill | *Gweler uchod |

**Arolwg o ddyletswydd Adran 6**

- **Beth sydd wedi gweithio'n dda?  Beth fu'r rhwystrau?  Beth fyddwch yn ei newid?**

  Llwyddiant mawr oedd y bocsus blodau o ran ymgysylltiad cymunedol. Nid oedd blodau'r maes yn dderbyniol gan bawb felly penderfynwyd gosod y blodau traddodiadol yn rhai bocsus a blodau'r maes yn y pentrefi hynny lle roedd yr arbrawf wedi gweithio'n dda

  Gan fod y Cyngor wedi neilltuo arian yn y gyllideb, mi fydd y drafodaeth am gynlluniau i'r dyfodol yn parhau.

- **Sut a phryd fydd y ddyletswydd Adran 6 yn cael ei monitro a'r cynllun Adran 6 wedi'i adolygu?**

  Caiff y gwaith ei fonitro gan y Cyngor llawn gydag arweiniad gan y Clerc a gwybodaeth gan asiantaethau perthnasol.

  Gyda'r penderfyniad i neilltuo arian yn y gyllideb ers 2021 mae'r drafodaeth yn digwydd yn gyson ac yn sicr yn ystod cyflwyno cyllidebau.  Cyflwynir yr Adroddiad llawn bob 3 mlynedd yn unol â gofynion Adran 6 o'r Ddedd Amgylchedd.